

Grwpiau Cymdeithasol i Oedolion Awtistig: Canllawiau



Ymddygiad

- 1** Byddaf yn parchu ffiniau aelodau'r grŵp drwy beidio â gofyn cwestiynau personol treiddgar neu amhriodol.
- 2** Byddaf yn parchu ac yn deall y gall fod gan aelodau eraill y grŵp wahanol ddiddordebau, safbwyntiau ac anghenion cymorth i mi, a bod gan bawb yr hawl i fynegi eu barn yn rhydd.
- 3** Dylai unrhyw farn a fynegir barchu'r canllawiau canlynol:
 - dim ymosod geiriol ar aelodau eraill y grŵp, y cyhoedd na hwyluswyr/gwirfoddolwyr.
 - dim sylwadau digywilydd, personol neu ragfarnllyd (ee rhywiaeth, homoffobia, hiliaeth, gwrth-Semitiaeth, anoddefgarwch crefyddol, iaith casineb trawsffobia, geiriau anwedus neu bornograffi), ac ati i aelodau eraill y grŵp neu hwyluswyr/gwirfoddolwyr.
 - dim emojis/symbolau digywilydd, amhriodol neu dramgwyddus - os nad ydych chi'n siŵr, peidiwch â'u postio. Gall yr hyn nad yw'n ymddangos yn amharchus i chi achosi tramgwydd i eraill.
- 4** Rwy'n derbyn os nad yw fy ymddygiad fel Aelod o'r Grŵp Cymdeithasol tuag at aelodau eraill yn briodol, y byddaf yn cael fy nileu o'r grŵp.
- 5** Mae Grwpiau Cymdeithasol i Oedolion yn darparu lleoliad cymdeithasol, efallai na fydd arweinydd y grŵp na'r aelodau eraill yn gallu rhoi cyngor/cefnogaeth i mi ynghylch unrhyw faterion sy'n codi y tu allan i'r grwpiau cymdeithasol. Fodd bynnag, byddant yn gallu ceisio fy nghyfeirio at wasanaethau priodol.
- 6** Gwisgwch mewn ffordd briodol pan fyddwch yn mynychu'r grwpiau cymdeithasol i oedolion.
- 7** Ni fydd unrhyw aelodau heb wahoddiad yn cael ymuno â'r gweithgaredd grŵp ar ddiwrnod y digwyddiad. Bydd aelodau newydd yn cael eu gwahodd i ymuno â'r grŵp drwy lenwi ffurflen aelodau newydd.